| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD | **27 MEDI 2018** |
| TEITL | **CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 14 MEDI 2018** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R GWEITHREDIADAU SYDD EISOES WEDI'U CYTUNO GYDA'R GWASANAETHAU PERTHNASOL** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill 2018 hyd 14 Medi 2018.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2018:

| **Disgrifiad** | **Nifer** |
|---|---|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 14 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

**2.2 Adroddiadau Archwilio**

2.2.1 Mae’r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o’r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 14 Medi 2018, gan ddangos y lefel sicrwydd perthnasol a chyfeiriad i’r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | LEFEL SICRWYDD | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Trefniadau Diogelu – Trais yn y Cartref | Corfforaethol | - | Cyfyngedig | Atodiad 1 |
| Grant Gwisg Ysgol | Addysg | Adnoddau | Uchel | Atodiad 2 |
| Grant Datblygu Disgyblion | Addysg | Adnoddau | Digonol | Atodiad 3 |
| Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion | Addysg | Adnoddau | Uchel | Atodiad 4 |
| Mynediad i Ysgolion | Addysg | Adnoddau | Uchel | Atodiad 5 |
| Atal a Dileu Dyledion Treth Cyngor | Cyllid | Refeniw | Uchel | Atodiad 6 |
| Trethi Busnes – Rhestr Brisio | Cyllid | Refeniw | Uchel | Atodiad 7 |
| Canolfan Hamdden Arfon | Economi a Chymuned | Hamdden | Digonol | Atodiad 8 |
| Casglu Incwm – Morwrol a Pharciau Gwledig | Economi a Chymuned | Morwrol a Pharciau Gwledig | Digonol | Atodiad 9 |
| Gofal Cartref – Costau Teithio | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Gofal Cymunedol | Digonol | Atodiad 10 |
| Plas y Don | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | Digonol | Atodiad 11 |
| Plas Hedd | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | Digonol | Atodiad 12 |
| Hafod Mawddach | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | Digonol | Atodiad 13 |

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | LEFEL SICRWYDD | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Cefn Rodyn | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | Digonol | Atodiad 14 |

2.2.2 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod.

| | | |
|---|---|---|
| **LEFEL SICRWYDD** | **UCHEL** | Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. |
| | **DIGONOL** | Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach. |
| | **CYFYNGEDIG** | Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt. |
| | **DIM SICRWYDD** | Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion. |

**3. GWAITH DILYNIANT**

3.1 Mae trefniadau newydd wedi eu sefydlu ar gyfer archwiliadau dilyniant. Yn 2017/18, daethpwyd i gytundeb ar 163 o gamau gweithredu i'w cyflawni erbyn 31 Mawrth 2019. Yn dilyn cais am wybodaeth a thystiolaeth gan yr Unedau/Gwasanaethau perthnasol ar gynnydd gweithrediadau, dengys ar 14 Medi 2018 bod gweithrediad derbyniol ar **38.65%** o'r camau cytunedig, h.y. 63 allan o 163.

**4. ARGYMHELLIAD**

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill 2018 hyd at 14 Medi 2018, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

Atodiad 1

**TREFNIADAU DIOGELU – TRAIS YN Y CARTREF**
**CORFFORAETHOL**

## 1. Cefndir

1.1 Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Act 2015) wedi bod mewn grym ers 2015. Yn unol ag Adran 15 y Ddeddf, cyhoeddwyd Canllawiau Statudol gan y Llywodraeth ym mis Mawrth 2016, sef fframwaith hyfforddi cenedlaethol sy'n ei gwneud yn fandadol i holl staff awdurdodau perthnasol (gan gynnwys cynghorau sir) i gwblhau hyfforddiant codi ymwybyddiaeth yn y maes. Yn ôl y Canllawiau Statudol:

- Rhaid i 50% o staff awdurdod perthnasol gael eu hyfforddi o fewn 12 mis i ddyddiad cyhoeddi'r canllawiau statudol
- Rhaid i 100% o staff awdurdod perthnasol gael eu hyfforddi o fewn 24 mis i ddyddiad cyhoeddi'r canllawiau hyn (h.y. erbyn mis Mawrth 2018)

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau priodol mewn lle er mwyn cydymffurfio gyda fframwaith hyfforddi cenedlaethol 'Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol'. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu sicrhau bod holl staff y Cyngor wedi cwblhau hyfforddiant codi ymwybyddiaeth yn y maes o fewn yr amserlen.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| CYFYNGEDIG | **Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae'r archwiliad wedi darganfod fod rhai risgiau angen sylw pellach:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 2 |
| CANOLIG | 1 |
| ISEL | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Er mwyn cwrdd â'r anghenion hyfforddiant, mae modiwl e-ddysgu cenedlaethol 'Cam-drin Domestig', wedi cael ei ddatblygu, a gall pob gweithiwr swyddfa ei gyflawni wrth eu desg. Yn ogystal, mae fersiwn bapur ar gael i'r sawl sydd methu cael mynediad at gyfrifiadur. Ar ddiwedd mis Gorffennaf 2018, roedd ystadegau Cefnogaeth Gorfforaethol yn nodi bod ychydig dros 1,500 o weithwyr wedi cwblhau'r hyfforddiant allan o weithlu o dros 7,000, sy'n dangos nad yw'r Cyngor wedi cyrraedd y targedau. Ymddengys felly bod rhwystrau yn bodoli sy'n atal swyddogion rhag cyflawni'r hyfforddiant.

5.1.1 Gall gweithiwr swyddfa gwblhau'r hyfforddiant yn eithaf rhwydd, gan fod y modiwl ar gael ar eu cyfrifiadur. Oni bai am fethiant i neilltuo amser ar ei gyfer, gan fod yr hyfforddiant yn gallu cymryd hyd at awr, yr unig rwystrau sy'n atal swyddogion rhag cyflawni'r hyfforddiant yw diffyg cymhelliant, neu ddiffyg ymwybyddiaeth o'r angen i'w gwblhau.

5.1.2 Y Cyngor sy'n gyfrifol am sicrhau bod y targedau yn cael eu cyflawni, ac felly yn gyfrifol am sicrhau bod prosesau priodol mewn lle er mwyn galluogi swyddogion i'w cwblhau. Gwneir hyn drwy'r Panel Gweithredol Diogelu, sy'n cwrdd yn amserol er mwyn trafod materion Diogelu, megis Cam-drin Domestig, ac sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob adran. Mae'r Panel yn gorfod dibynnu ar yr adrannau i sicrhau gweithrediad ar faterion Diogelu, gan gynnwys y gofynion hyfforddiant statudol, ond ymddengys nad yw'r neges yma yn cyrraedd pawb, ddim digon cryf, neu fod y strwythurau ddim mewn lle i'w galluogi.

5.1.3 Er bod posib cynhyrchu adroddiad sy'n rhestru enwau (ac adran) y sawl sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant, nid oes modd cynhyrchu adroddiad sy'n amlygu pwy sydd heb ei gwblhau. Mae'n bosib wrth gwrs dehongli hyn o'r adroddiad gwreiddiol, ond mae'n dasg lafurus. Buasai adroddiadau amserol fel hyn wedi ei dargedu at y Rheolwyr perthnasol yn sicr o gynyddu'r nifer sydd wedi ei gwblhau. Yn ogystal, buasai neges gorfforaethol, megis drwy e-bost neu/ac ar y fewnrwyd yn cynyddu'r niferoedd, boed drwy orchymyn ffurfiol, neu drwy anogaeth sydd yn cwmpasu theori *nudge* (modd o ddylanwadu heb orfodi).

5.1.3 Ymddengys bod llawer mwy o rwystrau i weithwyr maes, sef y sawl sydd yn gyflogedig gan Gyngor Gwynedd ond ddim yn gweithio mewn swyddfa (megis Athrawon, Gofalwyr Cymunedol, Gweithwyr Ffordd ayb), rhag cwblhau'r hyfforddiant. Gan nad oes ganddynt gyfeiriad e-bost Cyngor Gwynedd, nid yw'n bosib anfon e-bost generig atynt i'w annog i gyflawni'r hyfforddiant felly maent yn ddibynnol ar arweiniad ar lafar gan eu rheolwyr. Yn dilyn trafodaethau gyda rheolwyr gweithwyr maes (megis rheolwyr Cartrefi Preswyl) mynegwyd ei fod yn anodd neilltuo amser ar gyfer hyn, gan fod angen eu tynnu o'u gwaith rheng flaen.

5.1.4 Er mai cwblhau hyfforddiant yw amcan yr ymarferiad yma, mae ei lwyddiant cyffredinol yn deillio o ba mor dda oedd y cynnwys ac os yw swyddogion bellach yn ymwybodol o'r arwyddion o gam drin domestig, y camau dylent gymryd a'r cymorth sydd ar gael. Nid yw ystadegau'r Cyngor yn gallu profi hyn.

5.1.5 Mae Cam-drin Domestig yn un o gyfres o hyfforddiant yn y maes Diogelu y mae disgwyl i weithwyr y Cyngor eu cwblhau. Mae'r hyfforddiant eraill yn cynnwys 'Caethwasiaeth Modern', 'Gwrthderfysgaeth' a '*County Lines*' er enghraifft. Er nad oes gofynion statudol ar y Cyngor i sicrhau bod pawb yn eu cwblhau, buasai gweithdrefnau sy'n hwyluso gweithwyr i gwblhau hyfforddiant yn arwain at drefniadau Diogelu cyffredinol cryfach.

**6. Camau Gweithredu**

**Mae Cadeirydd y Panel Gweithredol Diogelu wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Panel Gweithredol Diogelu i ymgorffori darganfyddiadau'r adroddiad i fewn i raglen waith.**

Atodiad 2

**GRANT GWISG YSGOL**
**ADDYSG**

**1. Cefndir**

1.1 Mynegir yn y llythyr 'Dyfarnu Cyllid mewn perthynas â Chynllun Grant Gwisg Ysgol Llywodraeth Cymru 2017-18' ei bod yn gyfrifoldeb ar y Cyngor i 'gyflwyno adroddiadau archwilio bob tair blynedd fel yr amlinellwyd yn eich llythyr atoch ar 24 Tachwedd 2008'. Ar 09/07/2017 derbyniwyd e-bost gan Paul Davies o Lywodraeth Cymru yn mynegi bod y grant yn dod i ben ar ôl 2017/18 a bod angen '*darparu'r dogfennau gofynnol [Y Tystysgrif Archwilio] i mi mewn copi caled a hynny ddim hwyrach na 30 Medi 2018*'.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod yr hawliad grant yn gyson ag amodau'r Llywodraeth a'u bod yn cael eu gweithredu'n briodol. Detholwyd sampl o daliadau grant a wnaethpwyd a gwiriwyd bod y rhieni/gwarcheidwaid yn gymwys i'r taliadau. Hefyd, sicrhawyd bod y ffurflenni hawlio wedi eu cwblhau'n gywir ac wedi eu cyflwyno yn unol â'r proffil taliadau.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **UCHEL** | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

**4. Prif Ddarganfyddiadau**

4.1 Gwelwyd bod y llythyr cynnig ar gyfer 2017/18 wedi ei arwyddo gan y swyddogion priodol ac wedi ei gwblhau'n brydlon i'w ddychwelyd o fewn yr amserlen. Gwelwyd bod y ffurflenni hawlio wedi eu cwblhau'n brydlon yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru.

4.2 Gwiriwyd y system budd-daliadau a gwelwyd bod pob unigolyn, o'r sampl a ddetholwyd yn gymwys i dderbyn y grant gwisg ysgol. Gwelwyd bod y disgyblion o'r sampl yr oedran cywir ac yn mynychu ysgolion yng Ngwynedd. Anfonwyd llythyr at bob unigolyn o'r sampl a ddetholwyd, i'w hysbysu o'u teilyngdod ar gyfer y grant.

4.3 Gwiriwyd adroddiad hb6601a gan y Gwasanaeth Budd-daliadau, y cyfriflyfr ariannol a'r ffurflenni hawlio. Gwelwyd bod 175 taliad o £105.00 wedi eu gwneud o'r cyfrif AC15 6081. Roedd un o'r rhain yn ad-daliad yn ôl i'r un cyfrif o ganlyniad i siec heb ei bancio gan un unigolyn am dros 6 mis. Golygai hyn mai 174 taliad i rieni/gwarcheidwaid a wnaethpwyd dros y flwyddyn ariannol 17/18.

4.4 Hawliwyd gwerth 169 taliad gan Lywodraeth Cymru yn 2017/18 ac roedd gwerth 4 taliad eisoes wedi eu derbyn o ganlyniad i or-hawliadau (2014/15, 2015/16 a 2016/17) sy'n rhoi cyfanswm o werth 173 taliad a dderbyniodd y Cyngor arian i'w ddyrannu. Gwelwyd felly bod y Cyngor wedi tan-hawlio 1 taliad £105.00 ar gyfer 2017/18. Mynegodd yr Uwch Gyfrifydd nad oes modd hawlio'r £105.00 yma yn 2018/19 gan fod y grant wedi dod i ben.

Atodiad 3

**GRANT DATBLYGU DISGYBLION**
**ADDYSG**

**1. Cefndir**

1.1 Diben y Grant Datblygu Disgyblion (Grant Amddifadedd Disgyblion ynghynt) yw gwella canlyniadau i ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a phlant sy'n derbyn gofal. Bwriedir iddo oresgyn y rhwystrau ychwanegol sy'n atal dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig rhag cyflawni eu potensial llawn.

1.2 Caiff y grant ei ddirprwyo i'r Ysgolion / lleoliadau blynyddoedd cynnar gan eithrio'r elfen 'Plant sy'n Derbyn Gofal' a caiff ei reoli yn rhanbarthol gan y Consortiwm Addysg Lleol, sef GwE. Mae GwE hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod yr ysgolion yn cyflawni gofynion y grant a'u cefnogi i'r perwyl hynny. Cyngor Gwynedd yw Awdurdod Arweiniol y Grant ar ran Awdurdodau Gogledd Cymru.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd cadarnhau cywirdeb y Dystysgrif Archwilio, sef datganiad o wariant yr Awdurdod ar gyfer grant 2017/18, a chadarnhad bod systemau a rheolaethau mewnol yn eu lle i sicrhau bod y grant yn cael ei ddefnyddio at y dibenion priodol.

2.2 Gwnaed hyn drwy ddethol sampl o daliadau Cyngor Gwynedd a GwE ar ffurf anfonebau, siwrneli a chyflogau mewn perthynas â'r gwahanol elfennau o'r grant, gan sicrhau eu bod yn rhesymol ac yn cyd-fynd ag amcanion y grant. Yn ogystal, cadarnhawyd bod y grant wedi ei ddirprwyo'n uniongyrchol i'r ysgolion a bod trefniadau priodol ar gyfer monitro'r grant a hawlio'r cyllid gan Lywodraeth Cymru.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

4.1 Mae'r archwiliad wedi darganfod fod rhai risgiau angen sylw pellach:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 1 |
| **ISEL** | 0 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Gwelwyd bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer gweinyddu'r Grant Datblygu Disgyblion. Cysonwyd y gwariant ar y Dystysgrif Archwilio gyda'r cyfriflyfr a dilynwyd sampl o gostau yn ôl i'w ffynonellau. Gwelwyd o'r sampl o wariant a archwiliwyd eu bod yn rhesymol ac yn cyd-fynd ag amcanion y grant. Yn ogystal roedd trefniadau priodol ar gyfer hawlio'r cyllid yn unol ag amodau a thelerau'r grant a gwelwyd bod y swm priodol o'r cyllid wedi ei ddyrannu i'r Awdurdodau a'i ddirprwyo'n uniongyrchol i ysgolion Gwynedd.

5.1.1 Disgwylir i bob sefydliad gyhoeddi eu dyraniad grant ar lein neu, os nad oes ganddynt wefan, anfon copi i mewn i GwE. Gwelwyd mai dim ond saith 'Cynllun Gwariant' ysgol oedd yn weledol ar wefan GwE ar gyfer 2017-18. Roedd y ffigyrau yn y cynlluniau yn cysoni gyda'r grant dyrannwyd i bum ysgol allan o'r saith. Detholwyd tair ysgol arall ar hap er mwyn gweld os oedd y dyraniad grant y GDD yn weledol ar eu gwefannau, ond dim ond mewn un achos y gwelwyd hyn.

5.1.2 Gwiriwyd yn ogystal wyth o gynlluniau datblygu ysgolion ar hap ac ar gyfer y sampl a ddetholwyd, gwelwyd bod yr elfen GDD yn gynwysedig mewn saith ohonynt ac yn cysoni gyda'r gwir ffigwr mewn pum achos.

5.1.3 Mae Ymgynghorwyr GwE wedi cynnal ymweliadau monitro i'r ysgolion yn ystod y flwyddyn gan dderbyn tystiolaeth am eu gwariant. Er nad yw'n ofynnol i'r sefydliadau gyhoeddi eu dyraniadau ar gyfer grant 2018-19, mae GwE yn awyddus i sicrhau gweithrediad drwy gyhoeddi manylion 2017-18 cyn diwedd mis Medi 2018.

**6. <u>Camau Gweithredu</u>**

**Mae GwE wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Tîm gweinyddol GwE i gyhoeddi adroddiadau Grant Datblygu Disgyblion pob ysgol oni bai ei fod ar wefan yr ysgol yn barod.**

Atodiad 4

**GRANT GWELLA ADDYSG AR GYFER YSGOLION**
**ADDYSG**

**1. Cefndir**

1.1 Ar 1af Ebrill 2015 bu i Lywodraeth Cymru gyfuno'r grantiau canlynol mewn un prif grant, a elwir yn Grant Gwella Addysg (GGA):

- Cyfnod Sylfaen
- Llwybrau Dysgu 14-19
- Grant Effeithiolrwydd Ysgolion (GEY)
- Grant y Gymraeg mewn Addysg
- Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig
- Addysg Plant Sipsiwn a Phlant Teithwyr
- Sefydlu Athrawon Newydd Gymhwyso
- Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch
- Ysgolion Arweiniol a Datblygol
- Cefnogaeth i Brofion Darllen a Rhifedd
- Cyllid i Ysgolion Band 4 a 5

1.2 Egwyddor craidd y grant yw bod y mwyafrif helaeth yn cael ei ddefnyddio ar gyfer darpariaeth rheng flaen gydag amodau a thelerau grant 2017-18 yn nodi'r disgwyliad bod isafswm o 80% o gyfanswm y grant yn cael ei ddyrannu'n uniongyrchol i'r ysgolion. Cyngor Gwynedd yw'r Awdurdod lletyol Grant Gwella Addysg a GwE sydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr ysgolion yn cyflawni gofynion y grant ac yn cefnogi'r ysgolion i'r perwyl hynny.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol ar gyfer gweinyddu Grant Gwella Addysg 2017-18, er mwyn lliniaru risgiau yn unol ag amodau a thelerau'r grant yn ogystal â chadarnhau bod sail i'r ffigyrau a gyflwynir ar ddatganiadau gwariant Cyngor Gwynedd a GwE mewn perthynas â'r grant a dilyn trywydd y ffigyrau i'r cyfriflyfr i gadarnhau eu cywirdeb a'u priodoldeb.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| UCHEL | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

**4. Prif Ddarganfyddiadau**

4.1 Gwelwyd bod sail gadarn i'r ffigyrau a gofnodwyd ar ddatganiadau gwariant Cyngor Gwynedd a GwE mewn perthynas â'r grant. Dilynwyd sampl o'r ffigyrau yn ôl i gyfriflyfr ariannol y Cyngor, ac fe'u cafwyd yn gywir.

Atodiad 5

**MYNEDIAD I YSGOLION**
**ADDYSG**

**1. Cefndir**

1.1 Mae pob cais am leoedd yn ysgolion Gwynedd yn cael eu derbyn a'u prosesu gan y Swyddog Gwybodaeth a Mynediad Ysgolion, gyda lleoedd yn cael eu caniatáu yn seiliedig ar y meini prawf a gadarnhawyd ym Mholisi Mynediad i Ysgolion Gwynedd.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer derbyn a phrosesu ceisiadau am leoedd yn nosbarthiadau Meithrin a Derbyn ysgolion Gwynedd. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio ceisiadau sampl o ysgolion er mwyn sicrhau fod lleoedd wedi eu caniatáu yn unol â'r meini prawf fel a fanylir ym Mholisi Mynediad i Ysgolion Gwynedd.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| UCHEL | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

**4. Prif Ddarganfyddiadau**

4.1 Detholwyd sampl o 5 ysgol gynradd, sef Dolbadarn, Y Gelli, Glancegin, Y Faenol a'r Garnedd, gan wirio ffurflenni cais ar gyfer 2018/19 ar hap er mwyn sicrhau fod lleoedd wedi eu caniatáu yn unol â'r meini prawf. Mae gan bob ysgol rif mynediad, sef y nifer o blant gellid eu derbyn yn seiliedig ar faint yr ysgol, gyda Pholisi Mynediad i Ysgolion Gwynedd yn cadarnhau na ellid gwrthod unrhyw gais hyd nes bod y rhif mynediad wedi ei gyrraedd. O'r sampl, Ysgol Y Gelli yn unig oedd wedi derbyn mwy o geisiadau nac o lefydd ar gael. Gwiriwyd pob ffurflen cais am leoedd yn nosbarth Derbyn 2018/19. Gwelwyd bod trefniadau addas mewn lle ar gyfer prosesu'r ceisiadau, gyda'r ceisiadau cywir wedi eu gwrthod yn unol â'r meini prawf.

Atodiad 6

**ATAL A DILEU TRETH CYNGOR**
**CYLLID**

## 1. Cefndir

1.1 Yn ystod 2017/18, casglwyd oddeutu £67miliwn o refeniw treth cyngor gyda chyfradd casglu o 97.13% ar gyfer biliau a gosodwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18. Amcangyfrifir bod oddeutu £77miliwn o incwm i'w gasglu ar gyfer 2018/19.

1.2 Mae'r gwasanaeth yn gallu dewis i atal unrhyw eiddo, cyfrif, rhybudd penodol neu/a chyfrif o dan orfodaeth am unai gyfnod dros dro neu am byth ar y system treth cyngor. Mae ataliadau yn golygu bydd balansau yn cael eu hatal rhag cael eu hadennill dros amryw o resymau, megis amser i ymateb i gais/delio ag ymholiadau trethdalwr gyda materion gwaeledd, trethdalwr methu cael ei leoli, marwolaeth ayb. Allan o'r adroddiadau a gynhyrchiwyd ar 25/07/2018, nodwyd bod cyfanswm o 4000 o ataliadau ar y system oedd gyda balasau yn eu herbyn (6244 o ataliadau heb falansau ar y system).

1.3 Os nad oes modd adennill dyledion treth cyngor, mae opsiwn i'r gwasanaeth eu dileu drwy gais i'r Uwch Reolwr Refeniw a Risg a'r Pennaeth Cyllid a dros drothwy penodol, mewn ymgynghoriad a'r Aelod Cabinet Cyllid. Yn ystod 2018 cafodd oddeutu £155.5 mil o ddyledion treth cyngor eu dileu.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau addas mewn lle i ddarparu sicrwydd ar weithrediadau atal a dileu dyledion treth cyngor. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio canllawiau a threfniadau atal a dileu dyledion treth cyngor, yn cynnwys trefniadau adolygu i roi sicrwydd ar y rheolaethau mewnol a phrofi'r rheolaethau hyn drwy wirio sampl o weithrediadau atal a dileu dyledion yn 2018/19.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| UCHEL | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

## 4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Gwelwyd bod rheolaethau mewnol cryf yn bodoli wrth weithredu ar atal a dileu dyledion treth cyngor. Detholwyd ar hap sampl o 80 o gyfrifon a gafodd eu hatal a 12 o ddyledion a gafodd eu dileu ar gyfer 2018/19 i sicrhau bod gweithrediadau atal a dileu dyledion treth cyngor wedi cael eu cynnal mewn modd priodol.

4.1.1 Darganfuwyd bod dau brif fath o ataliadau a gaiff eu defnyddio ar y system sef '*Diary Dates'* a '*Circumstance Codes*'a bod codau gwahanol yn bodoli ar eu cyfer, sydd yn rhoi rheswm i'r defnyddwyr dros yr ataliad. Gwelwyd bod trefniadau priodol ar gyfer gweithredu a gweinyddu'r ataliadau yma.

Darganfuwyd ble mae'r angen, bod y gwasanaeth yn caniatáu i ataliadau gael eu gosod i fyny at ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Unwaith y bydd y dyddiad yn dod i ben, mae'r broses adennill yn parhau. Bydd adroddiadau o'r '*Diary Dates*' yn cael eu rhedeg yn fisol a'u hadolygu yn *ad-hoc* gan y Rheolwr Trethi. Mae trefniadau gwaith cyffredinol ar gyfer pob '*Circumstance Codes*' yn gofalu bod y cyfrifon yn cael eu hadolygu.

4.1.2 O'r sampl o ataliadau a wiriwyd, ymddengys bod pob un yn ddilys, gyda rheswm/tystiolaeth ar y ffeil i'w cefnogi a bod gweithrediad pellach wedi digwydd ar ôl y dyddiad atal ddod i ben.

4.1.3 Gwelwyd bod trywydd archwilio mewn lle ar gyfer adnabod ataliadau a osodwyd ar y system.

4.1.4 Adolygwyd y drefn ddileu dyledion a gwelwyd bod y trefniadau yn cydymffurfio â rheoliadau ariannol y Cyngor. Ar gyfer dyledion a gafodd eu dileu yn 2018, gwelwyd bod tystiolaeth briodol wedi'u dogfennu ar gyfer sampl a wiriwyd a bod y trafodion wedi cael eu gweithredu'n briodol ar bob cyfrif.

4.1.5 Mynegodd y Rheolwr Systemau Refeniw bod darpariaeth i ganiatáu dyledion a ddileuwyd gael eu hadfer mewn achosion pe byddai'r trethdalwr yn medru cael ei leoli.

4.1.6 Er bod adroddiadau '*Circumstance Codes*' yn adnabod bod nifer uchel o gyfrifon wedi eu hatal, gwelwyd bod canran uchel o'r rhain heb falans (h.y. zero balance) sydd yn ystumio'r gwir ystadegau. Trafodwyd y mater gyda'r Rheolwr Systemau Refeniw sydd am roi ystyriaeth i ddiystyru'r cyfrifon hyn o'r adroddiadau yn y dyfodol.

Atodiad 7

**TRETHI BUSNES – RHESTR BRISIO**
**CYLLID**

**1. Cefndir**

1.1 Trethi busnes yw'r trethi sy'n cael eu codi ar y rhan fwyaf o adeiladau masnachol ac adeiladau dibreswyl e.e. siopau, swyddfeydd ac ati. Mae'r dreth yn ddibynnol ar werth ardrethol yr eiddo ar ddyddiad penodol, caiff eu pennu gan y Swyddfa Brisio ac yna ei luosi gyda'r lluosydd cenedlaethol a gaiff ei bennu gan Lywodraeth Cymru. Y Cyngor sy'n gyfrifol am gasglu'r dreth, cyn ei drosglwyddo at Lywodraeth Cymru.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau priodol mewn lle i sicrhau cyflawnrwydd y rhestr brisio a gynhelir. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu cysoni manylion y system Trethi Busnes gydag adroddiadau'r Swyddfa Brisio.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| UCHEL | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

**4. Prif Ddarganfyddiadau**

4.1 Gwiriwyd sampl o adroddiadau diweddar y Swyddfa Brisio a chysonwyd y wybodaeth gyda'r hyn oedd ar system Trethi Busnes y Cyngor, sef system Academy. Gwiriwyd ar hap sampl o fusnesau unigol oddi ar yr adroddiadau a gwelwyd fod y wybodaeth yn cysoni gyda'r hyn sydd yn Academy. Cysonwyd cyfansymiau y gwerthoedd trethiannol a'r nifer o hereditamentau a gwelwyd eu bod yn briodol, gydag eglurhad am unrhyw wahaniaethau. Mae'r lluosydd ar gyfer 2018-19, sef 0.514 wedi ei osod o fewn y system yn briodol.

Atodiad 8

**CANOLFAN HAMDDEN ARFON**
**ECONOMI A CHYMUNED**

## 1. Cefndir

1.1 Mae Canolfannau Hamdden Cyngor Gwynedd yn rhan o wasanaeth Cymunedau Iach, o fewn yr Adran Economi a Chymuned. Mae 4 Rheolwr Ardal yn gyfrifol am reoli'r Canolfannau sydd dan reolaeth yr Awdurdod. Mae Canolfan Hamdden Arfon yn darparu nifer o wasanaethau i'r cyhoedd, gan gynnwys pwll nofio, ystafell pwysau a dosbarthiadau ffitrwydd.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Sicrhau bod trefniadau cadarn wedi eu sefydlu yn y canolfannau hamdden, er mwyn rheoli a lliniaru risgiau'n briodol, ac i sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau mewnol y Cyngor a deddfau perthnasol eraill.

2.2 Roedd yr archwiliad yn cwmpasu dethol sampl o 4 canolfan hamdden yng Ngwynedd i'w harchwilio er mwyn sicrhau bod trefniadau priodol wedi eu sefydlu ar gyfer rheoli amrywiol risgiau a allai fodoli yn y meysydd casglu incwm, rheolaeth gyllidebol, caffael a storio nwyddau ac iechyd a diogelwch. Yn ystod yr archwiliad, ymwelwyd â Chanolfan Hamdden Arfon yn ddirybudd.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae'r archwiliad wedi darganfod fod rhai risgiau angen sylw pellach:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 0 |
| CANOLIG | 3 |
| ISEL | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Gwelwyd bod rheolaethau mewnol cryf yn bodoli yng Nghanolfan Hamdden Arfon, ond bod angen tynhau ar rai agweddau, manylir ar y meysydd sydd angen sylw isod:

5.1.1 Mae gan y ganolfan ddau beiriant fendio sydd yn gwerthu diodydd. Mae pob aelod o staff yn gyfrifol am gwblhau gwiriadau stoc a chofnodi'r stoc i mewn ac allan o'r storfa. Derbyniwyd y cofnodion stoc a detholwyd sampl i'w gwirio ond nid oeddynt yn cyd-fynd gyda'r hyn oedd yn y storfa, roedd yn amlwg eu bod wedi derbyn stoc ond heb ei gofnodi.

Yn ddiweddarach yn ystod yr ymweliad, ail wiriwyd y cofnodion stoc a gwelwyd eu bod yn gofnodion hollol wahanol, holwyd ymhellach a daeth i'r amlwg bod dwy ffeil ar gyfer cofnodion stoc oedd yn cael eu defnyddio ar y cyd gyda chofnodion gwahanol. Mae'r ganolfan bellach wedi gwaredu un o'r ffeiliau fel mai un cofnod yn unig sydd ganddynt.

5.1.2 Mae'r ganolfan hefyd yn gwerthu nwyddau yn y dderbynfa megis, 'goggles' a 'noodles'. Nid oedd cofnodion stoc ar gyfer rhain ar adeg yr ymweliad ond derbyniwyd cofnodion newydd yn ddiweddarach a chadarnhawyd y byddai gwiriadau yn cael eu cynnal ar ddydd Mercher cyntaf o bob mis.

5.1.3 Derbynnir adroddiad misol o ddrwg-dalwyr y ganolfan gan yr Uned Incwm, gwelwyd bod rhai clybiau/unigolion gyda dyled gyda'r ganolfan ers sawl blwyddyn. Ymddengys nad oedd y rhain wedi cael eu hadolygu gan y ganolfan ar y pryd fel bod modd adrodd dilysrwydd y dyledion all ganiatáu i'r Uned Incwm adennill y dyledion yn effeithlon. Yn dilyn yr archwiliad, cytunodd y Rheolwr Ardal i adolygu'r adroddiad drwg-dalwyr gyda Gweinyddwr Ardal Caernarfon a Bangor.

5.1.4 Nid oedd gwiriadau wythnosol yr ystafell bwysau wedi eu cynnal ers sawl wythnos. Eglurodd y Rheolwr ar Ddyletswydd bod gwiriadau ar yr ystafell bwysau yn cael eu cynnwys yn rhestr wirio 'Zone 2' ar y System Legend sydd yn cael ei gynnal yn ddyddiol. Fodd bynnag, nid oedd yn ymddangos bod y gwiriadau yma wedi eu cynnal yn ddiweddar ychwaith. Gan fod y gwiriad yma wedi ei gynnwys ar ddwy restr mae'r rhestr wythnosol am gael ei dileu o'r System Legend fel nad yw gwaith yn cael ei ddyblygu.

5.1.5 Darganfuwyd bod y trefniadau ar gyfer gwarchod allweddi yn annigonol.

5.1.6 Gwiriwyd cofnodion hyfforddiant modiwlau e-ddysgu staff y ganolfan a gwelwyd mai nifer fechan yn unig oedd wedi cwblhau'r modiwlau diogelu. Eglurwyd bod bwriad i gael y gweithwyr i gwblhau'r modiwlau diogelu yn ogystal ag modiwlau diogelu data a GDPR yn yr wythnosau nesaf.

## 6. Camau Gweithredu

**Mae'r swyddogion perthnasol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Cwblhau gwiriadau ar offer yr ystafell pwysau a'u cofnodi yn rhestr wirio 'Zone 2' ar y System Legend.**
- **Yn dilyn derbyn yr allwedd sbâr yn ôl, rhoi trefniant mewn lle, lle mae'r ddau Reolwr ar Ddyletswydd llawn amser yn cadw'r allweddi ar eu hunain a sicrhau bod mynediad i'r allwedd ychwanegol yn y ganolfan yn cael ei gyfyngu i'r swyddogion angenrheidiol yn unig.**
- **Sicrhau bod pob aelod o staff yn cwblhau'r modiwlau e-ddysgu.**

Atodiad 9

# CASGLU INCWM - MORWROL A PHARCIAU GWLEDIG
# ECONOMI A CHYMUNED

## 1. Cefndir

1.1 Mae nifer o draethau ar hyd arfordir Gwynedd a sawl un wedi derbyn y wobr Baner Las sy'n cydnabod eu safonau uchel o ran gofynion amgylcheddol, addysgol, diogelwch a mynediad. Cesglir incwm megis parcio a lansio badau morwrol ar 8 o'r traethau yma yn ogystal â harbyrau a pharciau gwledig a reolir gan y gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle yn nhraethau, harbyrau a pharciau gwledig y Cyngor er mwyn rheoli'r risgiau ynghlwm â chasglu a bancio incwm. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu dethol sampl o draethau, harbyrau a pharciau gwledig i ymweld â hwy yn ddirybudd i gynnal gwiriadau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r prif egwyddorion sydd yn ymwneud â chasglu incwm y Cyngor.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae'r archwiliad wedi darganfod fod rhai risgiau angen sylw pellach:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 1 |
| **ISEL** | 1 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Oherwydd y defnydd cynyddol o beiriannau talu ac arddangos (cesglir gan gwmni allanol), a pheiriannau talu gyda cherdyn, nid oes gymaint o incwm ar ffurf arian parod yn cael ei gasglu bellach. Ymwelwyd â thraethau Abersoch, Machroes, Morfa Bychan a Harbwr Porthmadog yn ystod yr Archwiliad gan fod arian parod yn cael ei gasglu yma yn bennaf ar gyfer cofrestru a lansio badau ayb, a pharcio. Nifer isel yn unig oedd wedi talu i gofrestru/lansio yn Abersoch a Machroes ar ddiwrnod yr ymweliad ac roedd y ffigyrau yn cysoni â'r arian a gasglwyd yn y blwch arian. Gwelwyd yn nhraeth Morfa Bychan hefyd fod yr arian a gasglwyd yn y blychau arian yn cysoni gyda'r nifer o docynnau gwerthwyd, ond dim ond trafodion cerdyn oedd wedi eu derbyn yn Harbwr Porthmadog.

5.1.1 Roedd staff yn bresennol ar draethau Abersoch, Machroes a Harbwr Porthmadog ond ni welwyd unrhyw daflen gyhoeddus yn arddangos y ffioedd am wasanaethau'r Cyngor. Roedd arwydd clir, amlwg ar draeth Morfa Bychan yn arddangos y ffioedd am y gwahanol wasanaethau megis parcio, cofrestru a lansio.

5.1.2 Mae'r staff ar y traethau a'r harbwr yn brofiadol ac yn gyfarwydd â'r dyletswyddau o ran casglu incwm a bancio. Mynegwyd nad oes hyfforddiant wedi ei roi iddynt yn y maes casglu incwm, ond mae staff newydd yn dysgu yn eu swyddi ac yn cysgodi staff profiadol i sicrhau ymwybyddiaeth o'r drefn petai rhai o'r staff profiadol yn absennol.

5.1.3 Eglurodd y Swyddog Traethau a'r Harbwrfeistr eu bod wedi derbyn cyfarwyddyd i gwblhau taflen TR34cc ar gyfer pob diwrnod, ond mewn gwirionedd nid yw hyn yn angenrheidiol gyn belled fod yr is-gyfanswm ar gyfer pob diwrnod yn cael ei nodi ar y daflen. Nid oes llawer o drafodion yn ddyddiol i gyfiawnhau cwblhau taflen unigol ond gan fod arian yn cael ei fancio yn aml, bron yn ddyddiol ar adegau, mae angen sicrhau fod posib gwahaniaethu rhwng incwm ar y gwahanol ddyddiadau.

5.1.4 Cesglir incwm tâl mynediad i Barc Glynllifon gan gwmni 'Adra' sydd yn rhedeg siop ar dir y Parc. Mae 'Adra' yn cynhyrchu anfoneb 'hunan anfonebu' chwarterol sy'n nodi faint o arian a drosglwyddir i'r Cyngor. Mynegodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oes gwiriadau o'r niferoedd o ymwelwyr na'r arian a gesglir oherwydd nad oes adnoddau staff er mwyn eu cynnal. Ni ellir rhoi sicrwydd o gywirdeb y ffigyrau, ond mae'r Gwasanaeth yn ffyddiog eu bod yn gywir.

5.1.5 Gwelwyd o'r cyfriflyfr nad oes unrhyw gofnod o ddefnyddio'r cod gwarged/diffyg pan nad yw'r cyfanswm arian parod dderbyniwyd yn cysoni gyda'r symiau disgwyliedig. Nid oes trefn benodol er mwyn adrodd ar warged/diffyg ar draeth Morfa Bychan. Mae'r staff profiadol yn nodi fod y prysurdeb yn golygu gall gamgymeriadau bach gael eu gwneud ar adegau ond ar y cyfan mae'r sefyllfaoedd yn ymddangos i gysoni eu hunain erbyn diwedd y sifft. Eglurwyd fod arian dros ben (gwarged) ar adegau yn cael ei gadw ar yr ochr a'i ddefnyddio pan fydd diffyg yn cael ei adnabod er mwyn cysoni'r arian.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Sicrhau fod taflen yn nodi'r ffioedd ym mhob safle sy'n casglu incwm a bod y prisiau yn weledol i'r cwsmeriaid.**

Atodiad 10

# GOFAL CARTREF – COSTAU TEITHIO
# OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

## 1. Cefndir

1.1 Mae Gweithwyr Gofal Cymunedol yn teithio i amryw o leoliadau yn rhinwedd eu swydd er mwyn darparu gofal cymunedol i drigolion eu cymuned. Mae'r gweithwyr wedyn yn gwneud ceisiadau wythnosol i'r Cyngor am ad-daliad costau teithio, a gaiff eu gweinyddu o fewn eu hardal gwaith.

1.2 Yn sgil gorwariant sylweddol ar gostau teithio Gweithwyr Gofal Cymunedol yn y gorffennol, yn 2015/16 archwiliwyd y trefniadau gweinyddu, prosesu ac ardystio ceisiadau costau teithio ar draws tair ardal Gwynedd er mwyn sicrhau eu cywirdeb, eu bod yn cyd-fynd a'r rotas gwaith a bod yr ymweliadau wedi eu cynllunio mewn ffordd effeithiol. Yn ystod yr archwiliad, gwelwyd bod nifer o wendidau ac anghysondebau wedi dod i'r amlwg a chynigwyd argymhellion i gryfhau'r broses, ac erbyn yr archwiliad dilyniant roedd y gorwariant wedi lleihau yn sylweddol.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod rheolaethau mewnol priodol yn y trefniadau gweinyddu, prosesu ac ardystio taliadau costau teithio Gweithwyr Gofal Cymunedol er mwyn sicrhau bod y milltiroedd a gaiff eu hawlio yn briodol ac yn cyfateb i'r teithio sy'n ddisgwyliedig o'u rota gwaith am y cyfnod, ac o fewn cyllideb y Gwasanaeth. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio pa reolaethau sydd mewn lle i sicrhau cywirdeb y costau teithio drwy ddethol sampl diweddar o hawliadau a chymharu'r hyn mae'r gweithwyr yn hawlio yn erbyn eu rotas gwaith am y cyfnod dan sylw.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae'r archwiliad wedi darganfod fod rhai risgiau angen sylw pellach:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 1 |
| **ISEL** | 1 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Ers yr archwiliad gwreiddiol, gwelwyd fod gorwariant ar gostau teithio Gweithwyr Gofal Cymunedol wedi lleihau o oddeutu £128k yn 2014/15 i £63k yn 2017/18. Ymddengys felly bod y trefniadau presennol wedi cyflawni eu hamcanion.

5.1.1 Darganfuwyd archwiliad 2015/16 fod gwiriadau'r Gwasanaeth ar y ffurflenni costau teithio yn canolbwyntio ar ddarlleniadau cloc milltiroedd y cerbydau yn hytrach na'r cyfanswm gaiff eu hawlio a sut mae hyn yn cymharu â'u rota gwaith. Er y buasai hyn yn dasg weinyddol feichus iawn gan ystyried y niferoedd o ffurflenni costau teithio gaiff eu prosesu yn wythnosol, a'r diffyg manylion oedd arnynt, roedd y ffaith nad oedd y gwiriadau priodol yn cael eu cynnal wedi galluogi rhai taliadau costau teithio afresymol o uchel gael eu prosesu, ac efallai cyfrannu at ddiwylliant ymysg gweithwyr ble ystyrir fod hyn yn dderbyniol.

5.1.2 Yn dilyn yr archwiliad gwreiddiol, mae'r Gweinyddwyr Ardal yn cynnal gwiriadau ar sampl o ffurflenni costau teithio gan gymharu'r wybodaeth ar amserlenni gwaith â gwefannau megis 'Google Maps'. Mae'r gweithwyr yn ymwybodol o hyn yn dilyn llythyr anfonwyd allan yn dilyn archwiliad 2015/16. Fodd bynnag, mynegodd y Gweinyddwyr nad yw'n ymarferol i wirio sampl yn drylwyr ym mhob achos. Er gall hyn gynyddu'r risg o hawliadau amhriodol, mae lleihau'r gwiriadau yn cyd-fynd ag egwyddorion Ffordd Gwynedd a threfniant hunanwasanaeth y Cyngor.

5.1.3 Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu trefn newydd ble gall gweithwyr sydd â chyfrif TG hawlio unrhyw gostau teithio a chynhaliaeth drwy system hunanwasanaeth. Fel rhan o'r drefn yma, cyflwynir manylion teithiau ar-lein ac nid oes angen awdurdodiad gan reolwr er mwyn i'r taliad gael ei brosesu, ond mae gan reolwyr gyfrifoldeb i sicrhau priodoldeb ceisiadau ac mae ganddynt y gallu i wrthod ceisiadau os ydynt o'r farn eu bod yn amhriodol neu anghywir. Bwriad y drefn newydd yw lleihau'r baich gweinyddol oedd ynghlwm â'r drefn flaenorol o gwblhau cais bapur oedd angen awdurdodiad rheolwr llinell, ei ardystio gan ddaliwr y gyllideb ac yna ei fewnbynnu gan swyddogion gweinyddol i'r system i gynhyrchu'r taliad. Nid yw Gweithwyr Gofal Cymunedol yn defnyddio hunanwasanaeth ar hyn o bryd, ond yn y dyfodol, disgwylir iddynt ddefnyddio eu PDA (Personal Digital Assistant) er mwyn hawlio costau teithio, a fydd yn disodli'r trefniadau presennol. Bwriedir ail-ymweld â'r maes yma yn dilyn mabwysiadu'r trefniant newydd, er mwyn sicrhau bod taliadau costau teithio yn parhau yn briodol.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Parhau i fonitro'r gyllideb ym mhob ardal.**
- **Cynnal trafodaethau gyda TG er mwyn ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno trefniant hunanwasanaeth drwy ddefnyddio PDA (Personal Digital Assistant).**

Atodiad 11

**PLAS Y DON**
**OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

## 1. Cefndir

1.1 Cartref Preswyl yw Plas y Don sydd yn cynnig gofal dydd a gofal parhaol i hyd at 30 o breswylwyr.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau rheoli a chynnal Cartref Preswyl Plas y Don yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod trefniadau'r cartref yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau a derbyn incwm, iechyd a diogelwch, a monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| DIGONOL | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae'r archwiliad wedi darganfod fod rhai risgiau angen sylw pellach:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 0 |
| CANOLIG | 3 |
| ISEL | 2 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Gwelwyd bod naws cartrefol a chyfeillgar i'r cartref. Mae adroddiadau diweddar AGC[1] am welliannau ag addasiadau yn atgyfnerthu'r hyn a welwyd. Mae trefniadau rheoli a chynnal y cartref yn briodol ar y cyfan ond bydd angen rhoi sylw i'r canlynol.

5.1.1 O'r sampl o anfonebau a ddetholwyd, gwelwyd nad oedd stamp derbyn yn cael ei ddefnyddio er mwyn cofnodi dyddiad derbyn yr anfoneb yn y Cartref. Defnyddir y dyddiad derbyn yn hytrach na phwynt treth yr anfoneb er mwyn gwella, a sicrhau cywirdeb, perfformiad prydlondeb talu anfonebau.

5.1.2 Mae cofrestr eiddo'r Cartref angen ei ddiweddaru.

[1] Arolygiaeth Gofal Cymru

5.1.3 Er nad oedd aelodau staff wedi cwblhau’r modiwlau e-ddysgu angenrheidiol, mae’r rheolwraig eisoes wedi ymrwymo i weithredu ar hyn drwy drefnu i Swyddog o’r Adran Gefnogaeth Gorfforaethol i ymweld â’r Cartref er mwyn sicrhau fod yr holl staff yn cael y mynediad a’r gefnogaeth ar gyfer eu cwblhau heb amharu ar wasanaeth y Cartref.

5.1.4 Nid oedd yr arian yn y blwch arian mân yn cysoni â’r swm ar y daflen cyfrif. Swm bychan o £4 oedd y gwahaniaeth ac eglurwyd efallai mai arian o’r siop oedd wedi ei gynnwys mewn camgymeriad. Gwelwyd fod nifer o geisiadau am ad-daliad i’r cyfrif Imprest am symiau uwch na 2/3 o’r cyfanswm a bod dau o geisiadau yn fwy na chyfanswm y cyfrif. Er bod y blwch yn cael ei gadw’n ddiogel, nid oedd clo addas arno ag roedd posib ei agor heb allwedd pwrpasol.

5.1.5 Gwelwyd fod camgymeriad o ran cofnodion stoc meddyginiaeth yn ystod yr archwiliad. Nid oedd cofnod fod un o’r preswylwyr wedi derbyn tabled ar y daflen MAR (Medicine Administration Record) ond roedd y dabled wedi ei dynnu o’r ‘Venalink’ ar gyfer y diwrnod hwnnw. Ymrwymodd y Rheolwraig i ymchwilio i’r sefyllfa yma i geisio darganfod eglurhad.

## 6. Camau Gweithredu

**Mae’r Cartref wedi ymrwymo i weithredu’r camau canlynol i liniaru’r risgiau a amlygwyd:**

- **Sicrhau fod cofnod llawn a chywir wrth weinyddu meddyginiaeth.**
- **Trefnu i staff y Cartref gwblhau’r modiwlau E-Ddysgu angenrheidiol.**
- **Diweddaru Cofrestr Eiddo’r Cartref.**
- **Sicrhau fod y cyfrif arian mân yn cael ei weithredu’n briodol a’i fonitro a bod blwch addas ar gyfer cadw’r arian.**
- **Sicrhau fod stamp derbyn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob anfoneb.**

Atodiad 12

**PLAS HEDD**
**OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

## 1. Cefndir

1.1 Mae Cartref Plas Hedd, Bangor yn cynnig gofal parhaol a thymor byr i hyd at 28 o breswylwyr.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau rheoli a chynnal Cartref Preswyl Plas Hedd yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod trefniadau'r cartref yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau a derbyn incwm, iechyd a diogelwch, a monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| DIGONOL | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae'r archwiliad wedi darganfod fod rhai risgiau angen sylw pellach:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 0 |
| CANOLIG | 3 |
| ISEL | 2 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Gwiriwyd ffeiliau staff a'u cofnodion goruchwyliaeth. Dylai goruchwyliaeth gael ei gynnal pob 2 fis ar gyfer pob aelod o staff, ond gwelwyd caiff ei gynnal pob 6 mis ar gyfartaledd yn y cartref. Mynegodd y Rheolwr bod cynnal goruchwyliaeth mor reolaidd â phob 2 fis yn anodd iawn gyda'r adnoddau sydd gan y Cartref.

5.2 Gwelwyd o'r bas-data hyfforddiant bod y Rheolwr wedi derbyn hyfforddiant 'Cwrs Gweithdy Cyllid' yn 2014 a derbyniodd y Clerc hyfforddiant 'Trefniadau Ariannol' yn 2010. Roedd y Rheolwr a'r Clerc yn hyderus yn dehongli'r wybodaeth dderbyniant gan y gwasanaeth cyfrifeg. Mynegodd y Clerc y buasai'n fuddiol iddi dderbyn hyfforddiant sylfaenol ar y cyfriflyfr ariannol fel y gall gael mynediad at eu cyllideb a manylion gwariant heb orfod dibynnu ar y gwasanaeth cyfrifeg.

5.3 Darganfuwyd fod y Cartref wedi ymgeisio i dalu 2 anfoneb ddyblyg. Nid oedd y Rheolwr na'r Clerc yn ymwybodol ohonynt. Mynegodd y Clerc bod taenlen o anfonebau'r Cartref eisoes wedi'i addasu er mwyn adnabod anfonebau dyblyg cyn iddynt gael eu hanfon i'w talu.

5.4 O'r sampl o anfonebau ac archebion a wiriwyd, gwelwyd nad oedd stamp dyddiad derbyn anfoneb ar rai ohonynt, yn bennaf anfonebau'r gegin. Trafodwyd hyn gyda'r Rheolwr a'r Clerc a mynegwyd buasai'n fuddiol i'r gegin gael stamp dyddiad ei hun er mwyn hwyluso'r weithred i staff y gegin. Eglurwyd hefyd y buasai ysgrifennu dyddiad gyda llaw a'i arwyddo yn dderbyniol os nad oes stamp wrth law.

5.5 Mae angen i bob aelod o staff gwblhau'r modiwl e-ddysgu cam-drin domestig yn unol ag Adran 15 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, ble mae Canllawiau Statudol y Llywodraeth (Mawrth 2016) yn ei wneud yn fandadol i holl staff y Cyngor i gwblhau hyfforddiant codi ymwybyddiaeth yn y maes. Nid oedd rhan helaeth o'r staff wedi cwblhau'r modiwl ar amser yr archwiliad.

5.6 Gwelwyd bod Polisi Meddyginiaeth y Cyngor ar gael i staff y Cartref yn yr ystafell feddyginiaeth. Gwelwyd bod 19 aelod o staff wedi arwyddo'r daflen '*Rhestr o staff sydd yn gymwys i ddosbarthu meddyginiaeth'*. Gwelwyd bod 11 aelod o staff y Cartref wedi arwyddo'r daflen '*List of staff who have read and understood the medication policy for 2018*'. Golygai hyn mai 11 o'r 19 'cymwys i ddosbarthu meddyginiaeth' sydd wedi darllen a deall Polisi Meddyginiaeth y Cyngor.

5.7 Gwelwyd bod Datganiad o Ddiben y Cartref yn cynnwys y rhan helaeth o'r wybodaeth angenrheidiol yn unol ag Atodlen 2 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017. Fodd bynnag, ni chyfeirir at drefniadau i gefnogi anghenion crefyddol preswylwyr.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae'r Rheolwr wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Cynnal goruchwyliaeth yn fwy aml.**
- **Sicrhau bod pob aelod o staff sydd yn gymwys i ddosbarthu meddyginiaeth yn darllen a deall y Polisi Meddyginiaeth ac yn arwyddo'r daflen berthnasol.**
- **Sicrhau bod pob aelod o staff yn cwblhau'r modiwl e-ddysgu 'Cam-drin Domestig'.**
- **Cynnwys trefniadau'r cartref i gefnogi anghenion crefyddol preswylwyr.**
- **Tynhau trefniadau stampio/dyddio anfonebau.**

Atodiad 13

**HAFOD MAWDDACH**
**OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

**1. Cefndir**

1.1 Mae Cartref Hafod Mawddach yn cynnig gofal parhaol a thymor byr i hyd at 25 o breswylwyr sydd yn ei chael yn anodd byw yn annibynnol o fewn y gymuned ac sydd wedi eu hasesu fel angen cymorth.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau rheoli a chynnal Cartref Preswyl Hafod Mawddach yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod trefniadau'r cartref yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau a derbyn incwm, iechyd a diogelwch, a monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| DIGONOL | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

4.1 Mae'r archwiliad wedi darganfod fod rhai risgiau angen sylw pellach:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 0 |
| CANOLIG | 4 |
| ISEL | 1 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Gwelwyd bod rheolaethau mewnol cryf yn bodoli yng Nghartref Hafod Mawddach, ond bod angen tynhau ar rai agweddau, manylir ar y meysydd sydd angen sylw isod:

5.1.1 Nid yw Cynllun Gofal pob preswylydd yn derbyn adolygiad misol fel y disgwyl. Gwiriwyd cynlluniau gofal sampl o 5 preswylydd yn ystod yr archwiliad, gyda 4 ohonynt heb eu hadolygu ers deufis. Cadarnhaodd y Rheolwr mai'r gweithwyr allweddol sydd yn gyfrifol am drefnu hyn, ac y byddai'n eu hatgoffa o'r angen i'w cwblhau yn fisol.

5.1.2 Nid yw profion cymhwysedd meddyginiaeth yn cael eu cynnal. Cadarnhaodd y Rheolwr Ardal fod y Gwasanaeth wedi rhoi arweiniad bod disgwyliad i'r cymwyseddau gael eu cynnal yn flynyddol, o ran ymarfer da, diogelu'r gwasanaeth, a chefnogi'r staff. Fodd bynnag, nid yw'r Polisi Meddyginiaeth yn cadarnhau fod y rhain yn ofynnol. Cadarnhawyd bod Côd Meddyginiaeth newydd ar waith, ond nad oes arweiniad pendant wedi ei dderbyn eto yn cadarnhau os byddent yn ofynnol ai peidio.

5.1.3 Nid yw'r cartref yn gyson yn eu dull o gyfrifo hawl gwyliau gweithwyr achlysurol. Mae'r gwyliau yn cael eu cyfrifo gan roi ystyriaeth i'r nifer o oriau mae'r gweithiwr yn ei weithio mewn cyfnod o 13 wythnos. Gwelwyd ar adegau fod hawliad gwyliau rhai aelodau staff yn cael ei dalgrynnu i lawr i'r awr agosaf, gydag eraill yn cael eu talgrynnu i lawr i'r hanner neu chwarter awr agosaf. Cadarnhaodd y Rheolwr a'r Clerc eu bod pob amser wedi talgrynnu'r gwyliau i lawr, ond y byddent yn gyson yn eu trefniadau o hyn ymlaen, gan dalgrynnu hawl gwyliau pob aelod staff achlysurol i lawr i'r hanner neu chwarter awr agosaf.

5.1.4 Nid oes gwahaniaeth dyletswyddau wrth godi archebion ac awdurdodi taliadau. Cadarnhaodd y Rheolwr a'r Clerc nad oeddynt yn ymwybodol fod angen trefnu hyn, ac y byddent yn gwneud o hyn ymlaen. Yn ogystal, nid yw anfonebau yn derbyn stamp dyddiad, sy'n ei wneud yn amhosibl cadarnhau cynifer y dyddiau cymerwyd i'w prosesu. Dywedodd y Clerc ei bod eisoes wedi archebu stamp, ac y byddai pob anfoneb yn cael ei stampio gyda dyddiad derbyn o hyn ymlaen.

5.1.5 Ni ofynnwyd i'r Archwiliwr arwyddo'r llyfr ymwelwyr ar ddiwrnod yr ymweliad. Gwelwyd fod drws y cartref wedi ei ddal ar agor gyda charreg ar y bore hwnnw, felly gellid cael mynediad yn syth. Cadarnhaodd y Rheolwr fod staff yn ymwybodol i ofyn i bob ymwelydd arwyddo'r llyfr, ac y byddai'n eu hatgoffa yn syth. Ychwanegodd mai un o'r preswylwyr sydd yn rhoi y garreg ger y drws wrth fynd i'r ardd i ysmygu. Fel rheol mae'r drws wedi ei gloi. Gwiriwyd y llyfr ymwelwyr yn ystod yr ymweliad a gwelwyd ei fod yn cael ei arwyddo yn ddyddiol, gan ymwelwyr a staff.

5.1.6 Nid yw pob prawf tân yn cael ei gynnal yn amserol. Yn dilyn yr ymweliad cadarnhaodd y Rheolwr ei bod wedi penodi'r Uwch Swyddog Gofal ar gyfer cynnal y profion o hyn ymlaen.

5.1.7 Nid yw'r rhan fwyaf o staff y cartref wedi cwblhau'r modiwlau e-ddysgu gorfodol, sef Diogelu Oedolion, Amddiffyn a Diogelu Plant, ac Atal a Cham-drin Domestig.

## 6. Camau Gweithredu

**Mae'r Cartref wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Sicrhau fod Cynlluniau Gofal yn cael eu hadolygu'n fisol.**
- **Sicrhau fod profion tan yn cael eu cynnal yn amserol.**
- **Atgoffa staff fod angen i bob ymwelydd i'r cartref arwyddo'r llyfr ymwelwyr.**
- **Sicrhau fod staff yn cwblhau'r modiwlau hyfforddiant e-ddysgu yn y dyfodol agos.**
- **Sicrhau gwahaniad dyletswyddau wrth godi archebion ac awdurdodi taliadau.**

Atodiad 14

**CEFN RODYN**

**OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

**1. Cefndir**

1.1 Mae Cartref Cefn Rodyn, Dolgellau yn cynnig gofal parhaol a thymor byr i hyd at 21 o breswylwyr.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau rheoli a chynnal Cartref Preswyl Cefn Rodyn yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod trefniadau'r cartref yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau a derbyn incwm, iechyd a diogelwch, a monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

4.1 Mae'r archwiliad wedi darganfod fod rhai risgiau angen sylw pellach:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 2 |
| **ISEL** | 1 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Gwelwyd bod rheolaethau mewnol cryf yn bodoli yng Nghartref Cefn Rodyn, ond bod angen tynhau ar rai agweddau, manylir ar y meysydd sydd angen sylw isod:

5.1.1 Derbyniwyd copïau Cymraeg a Saesneg o Ddatganiad o Ddiben Cartref Cefn Rodyn, ond wrth wirio'r fersiwn Gymraeg gwelwyd mân gamgymeriadau ieithyddol. Yn ogystal, nid oedd y datganiad yn cynnwys yr holl wybodaeth a ddylid ei gynnwys yn unol ag Atodlen 1 - Rheoliad 4(1)(c) 'Yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y Datganiad o Ddiben' Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002 e.e. y trefniadau a wneir i'r defnyddwyr gwasanaeth fynychu gwasanaethau crefyddol o'u dewis a.y.b. Trafodwyd hyn gyda'r Rheolwraig, gan gyfeirio at Atodlen 1, a mynegwyd er nad yw wedi ei gofnodi yn y Datganiad o Ddiben, bod modd rhoi trefniadau mewn lle petai lefelau staffio yn caniatáu.

5.1.2 Gwiriwyd cofnodion hyfforddiant cymorth cyntaf, tân, diogelu a symud a thrin sampl o 10 aelod o staff. Nid oedd pob un ohonynt yn gyfredol bellach. Fodd bynnag, mae'r Rheolwraig eisoes wedi trefnu rhaglen hyfforddiant ar gyfer y flwyddyn gyfan fel bod staff yn derbyn yr hyfforddiant mwyaf cyfredol.

5.1.3 Derbyniwyd copïau sampl o ffurflenni HS11 ynghyd â'r e-byst roedd y Cartref wedi eu hanfon i'r Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch. Roedd cyfnod o 10 diwrnod wedi mynd heibio cyn i 2 o'r ffurflenni cael eu hanfon. Eglurodd y Rheolwraig mai gwall oedd hyn a'r drefn fel rheol yw eu bod yn cael eu hanfon yn syth.

5.1.4 Mae gan y Cartref bolisi Diogelu'r Cyngor, ond ddim y fersiwn cyfredol a adolygwyd ym mis Medi 2017. Anfonwyd copi cyfredol i'r Rheolwraig ac fe hysbyswyd staff y Cartref ohono.

5.1.5 Mae angen i bob aelod o staff gwblhau'r modiwl e-ddysgu cam-drin domestig yn unol ag Adran 15 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, ble mae Canllawiau Statudol y Llywodraeth (Mawrth 2016) yn ei wneud yn fandadol i holl staff awdurdodau perthnasol (gan gynnwys cynghorau sir) i gwblhau hyfforddiant codi ymwybyddiaeth yn y maes. 4 aelod o staff oedd wedi ei gwblhau ar adeg yr archwiliad.

5.1.6 Hanner staff y Cartref sydd wedi arwyddo i gadarnhau eu bod wedi darllen y Polisi Meddyginiaeth hyd yma yn 2018, roedd hyn yn cynnwys 12 allan o 17 aelod staff sy'n gweinyddu meddyginiaeth.

5.1.7 Gwiriwyd cofnodion tymheredd yr ystafell feddyginiaeth a'r oergell feddyginiaeth ar gyfer Ebrill 2018, a gwelwyd 11 cofnod ble roedd tymheredd yr oergell wedi uchafu 8◦C, sy'n groes i'r cyfarwyddiadau cadw meddyginiaeth yn y Polisi, sy'n nodi mai'r tymheredd delfrydol ar gyfer yr oergell yw rhwng 2◦C ac 8◦C. Mae'r Rheolwraig wedi addasu tymheredd yr oergell ac wedi rhoi nodyn yn y ffeil yn gofyn i staff adrodd ar unrhyw ddarlleniadau dros 8◦C.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae'r Rheolwraig wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Trefnu bod y swyddogion sydd yn gweinyddu meddyginiaeth yn darllen y polisi ac yn arwyddo i gadarnhau hynny.**
- **Trefnu bod staff yn cwblhau'r modiwl e-ddysgu 'Cam-drin Domestig'.**
- **Diweddaru'r Datganiad o Ddiben i gynnwys y wybodaeth angenrheidiol ac i gywiro'r mân gamgymeriadau.**